City and County of Swansea

# Minutes of the Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 15 Medi 2021 at 4.00 pm

**Present**: Councillor M Durke (Cadeirydd) Presided

| Councillor(s) | Councillor(s) | Councillor(s) |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | H Lawson | M B Lewis |
| S Pritchard | D W W Thomas | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith (Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau)

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Jones | Information Officer |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): M A Langstone

---

## 11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

## 13 Tueddiadau Data ar Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed

Rhoddodd Helen Morgan-Rees a Mike Jones gyflwyniad llafar manwl ac addysgiadol i gefnogi'r wybodaeth a ddosbarthwyd i'r Aelodau ym mhapurau'r agenda'n ymwneud ag ystadegau a thueddiadau data sy'n ymwneud â dysgwyr sy'n agored i niwed yn ysgolion Abertawe.

Roedd gwybodaeth fanwl o 2011/12 i 2021/22 a oedd yn ymwneud â'r meysydd canlynol yn gynwysedig yn y cyflwyniad:

- Niferoedd Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) ac effaith COVID wrth godi'r ffigur i lefel uchel newydd;
- Nifer y disgyblion sy'n cael PYDd o flwyddyn i flwyddyn mewn ysgolion;
- % y disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd mewn ysgolion;
- Dosbarthiad disgyblion ar draws y ddinas fel y'i cysylltir â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC);
- Proffiliau Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP) gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched, disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), disgyblion sy'n cael PYDd, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheini sydd â sgorau rhifedd a llythrennedd uwch/is na'r cyfartaledd;
- Sgoriau VAP cyfartalog yn ôl wardiau etholiadol;
- % y disgyblion mewn ADY sy'n gymwys i gael PYDd;
- Nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol o ysgolion a dadansoddiad o'r ffigurau o flwyddyn i flwyddyn;
- Menter Ymgyrch Encompass a ffigurau sy'n ymwneud â'r cynllun a ddatblygwyd yn 2019 gyda Heddlu De Cymru i gofnodi digwyddiadau lle mae disgyblion wedi gweld trais yn y cartref ac effaith COVID a'r cyfyngiadau symud ar y ffigurau:

Trafododd a dadleuodd yr Aelodau y ffeithiau a'r ffigurau a amlinellwyd ac effaith y pandemig arnynt. Codwyd amryw o ymholiadau a chwestiynau i'r swyddogion a oedd yn ymwneud â phynciau fel cysylltiadau rhwng PYDd a MALlC, mesuriadau eraill o amddifadedd megis materion ynghylch bod yn gyfoethog o ran incwm/yn dlawd o ran arian parod, mynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal leol, effaith y cwricwlwm newydd ar ystadegau yn y dyfodol, gwahaniaethau rhwng addysg Gymraeg/Saesneg. Ymatebodd y Swyddogion yn briodol i'r gwahanol faterion a godwyd.

Amlinellwyd y problemau a'r gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â ffigurau MALlC mewn wardiau a'r gwahaniaeth mawr rhwng rhai cymunedau o fewn yr un ffin ward.

Canmolwyd a chefnogwyd y cymorth emosiynol a lles sy'n cael ei ddarparu i ddisgyblion fel rhan o Ymgyrch Encompass.

Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth os oedd ar gael gan gynnwys data ward manylach ar ystadegau MALlC, cysylltiadau VAP â Phrosiect Cynnydd a Gyrfa Cymru, gwybodaeth yn ymwneud â data sydd ar gael sy'n seiliedig ar le ar effeithiau cyn geni ar blant rhieni sy'n camddefnyddio alcohol/cyffuriau ac unrhyw gydberthynas mewn ystadegau sy'n gysylltiedig â phwysau geni isel, data gwahardd (fesul ysgol) ac effaith COVID ar y rhain a materion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'i effaith ar ddisgyblion, yn enwedig ymhlith y rheini sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Trafodwyd hefyd y materion a'r heriau penodol a wynebir gan rai ysgolion fel Crug Glas a chyfeiriwyd at yr effaith y bydd y cyfleuster UCD newydd ym Maes Derw yn ei chael yn y dyfodol.

Amlinellodd a thrafododd yr Aelodau'r angen i gadw diddordeb plant mewn addysg drwy gymorth a chefnogaeth briodol ac o fewn amgylchedd yr ysgol ac i osgoi

gwaharddiadau lle bynnag y bo modd, boed hynny drwy gymorth unigol ychwanegol, gwaith yr UCD, neu drwy ehangu a hyrwyddo cyrsiau mwy galwedigaethol i ennyn diddordeb disgyblion llai academaidd.

Nododd swyddogion fod peth o'r wybodaeth y cyfeirir ati uchod wedi'i chynnwys mewn adroddiad diweddar i'r cyfarfod Craffu Addysg a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf, a dywedodd y byddai unrhyw wybodaeth bellach am y meysydd eraill a amlinellir ac a drafodwyd uchod yn cael eu darparu i'r cyfarfod nesaf os yw ar gael.

## 14 Cynllun Gwaith 2021/2022

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y trafodaethau a gynhaliwyd yn yr eitem flaenorol.

**Penderfynwyd** y bydd rhagor o wybodaeth a diweddariadau sy'n ymwneud â'r meysydd pwnc a amlinellir yn y cofnod uchod yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, a lle bo'n briodol, bydd yr wybodaeth sydd ar gael yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf.

The meeting ended at 5.15 pm

**Chair**